**CYPE(6)-13-22 - Papur i'w nodi 7**

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS,
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Mehefin 2022

Annwyl Jayne

Heddiw rwy'n lansio dau Ymgynghoriad, ar Amgylchedd Bwyd Iach ac ar ddod â gwerthu diodydd egni i blant i ben. Mae'r rhain yn gam pwysig tuag at gyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol a ddisgrifir yn ein strategaeth deng mlynedd, Pwysau Iach: Cymru Iach.

Gordewdra yw un o'r heriau mwyaf sylweddol i'r genhedlaeth bresennol fel poblogaeth. Mae'n un o'r ffactorau risg mwyaf o ran dioddef llawer o glefydau anhrosglwyddadwy, ac yn un o'r prif ffactorau sy'n achosi blynyddoedd o fyw gydag anabledd. Mae gorbwysedd a gordewdra yn effeithio ar dros 60% o oedolion, ac ar fwy nag un allan o bob tri o blant oed dosbarth derbyn. Rydym yn gwybod bod yn rhaid defnyddio dull gweithredu sy'n cynnwys llawer o wahanol elfennau os ydym am lwyddo i sicrhau newid. Mae hynny'n cynnwys newid ein hamgylchedd bwyd at amgylchedd sy'n ein hannog i wneud dewisiadau cadarnhaol er budd ein hiechyd.

Mae'r ymgynghoriad Amgylchedd Iach yn cynnwys tair thema: basgedi siopa iachach, bwyta'n iachach y tu allan i'r cartref, ac amgylcheddau bwyd lleol iachach. Bydd y cynigion y byddwn yn eu hystyried yn cynnwys cyfyngu ar hyrwyddo mathau penodol o fwyd a diod, ei gwneud yn orfodol i fwytai a safleoedd bwyd ddangos calorïau, a defnyddio'r pwerau cynllunio a thrwyddedu presennol i ystyried faint o safleoedd bwydydd tecawê poeth sy'n gweithredu mewn ardal benodol. Bwriad y cynigion yw defnyddio amrywiaeth o bwerau eilaidd a dulliau polisi i helpu i ddatblygu newidiadau ar draws Cymru. Nod yr ail ymgynghoriad yw defnyddio pwerau eilaidd i ddod â gwerthu diodydd egni i blant i ben.

Y cyfres gyntaf o fesurau fydd y rhain, a byddant yn cael eu monitro i weld beth yw eu heffaith dros gyfnod o amser, ochr yn ochr nifer o ddulliau gweithredu a chamau a nodir yn ein strategaeth genedlaethol. Mae'r ddolen at yr ymgynghoriadau'n atodedig er gwybodaeth ichi. Rydym yn bwriadu cyflawni amrywiaeth o waith ymgysylltu, yn benodol gyda rhieni, gofalwyr, plant, a phobl ifanc, dros gyfnod 12 wythnos yr ymgynghoriad er mwyn sicrhau bod yr ymateb yn cynrychioli amrywiaeth eang o bobl sydd â diddordeb er mwyn ein helpu i lunio ein dull gweithredu terfynol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn croesawu cael rhagor o sylwadau a chyfraniadau gan y Pwyllgor, yn ogystal ag ymgysylltu pellach mewn perthynas â’r ymgynghoriadau pwysig hyn. Rwyf hefyd wedi anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymgynghori ar Amgylchedd Bwyd Iach** |
| **DYDDIAD** | **Dydd Iau 9 Mehefin** |
| **GAN** | **Lynne Neagle AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant** |

Heddiw, rwy'n lansio dau ymgynghoriad ynghylch amgylchedd bwyd iach a rhoi diwedd ar werthu diodydd egni i blant a phobl ifanc o dan 16. Mae'r rhain yn gam pwysig tuag at gyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol a nodir yn ein strategaeth ddeng mlynedd *Pwysau Iach: Cymru Iach*.

Gordewdra yw un o'r heriau mwyaf rydym yn eu hwynebu fel poblogaeth. Mae'n un o'r ffactorau risg allweddol mewn llawer o glefydau anhrosglwyddadwy ac yn un o brif achosion nifer y blynyddoedd o fyw ag anabledd.

Mae gorbwysedd a gordewdra yn effeithio ar fwy na 60% o oedolion a mwy nag un o bob tri phlentyn oed derbyn. Mae canlyniadau astudiaethau cynnar a gynhaliwyd mewn nifer o wledydd yn awgrymu bod nifer yr achosion o orbwysedd a gordewdra wedi cynyddu ymhlith plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig .

Mae'n rhaid inni fabwysiadu dull aml-elfen er mwyn ysgogi newid cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys newid ein hamgylchedd bwyd ehangach i un sy'n annog ac yn ei gwneud yn haws inni wneud dewisiadau cadarnhaol ar gyfer ein hiechyd. Mae adroddiad rhanbarthol ar ordewdra gan Sefydliad Iechyd y Byd a lansiwyd y mis hwn, yn ei gwneud hi'n glir bod angen i ymdrechion i atal gordewdra ystyried ffactorau ehangach sy'n achosi'r clefyd, ac y dylai opsiynau polisi symud oddi wrth ddulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion a mynd i'r afael â'r ffactorau strwythurol sy'n gysylltiedig â gordewdra.

Rydym eisiau creu amgylchedd ledled Cymru lle mae'r dewis iach yn ddewis hawdd.

Mae'r ymgynghoriad amgylchedd bwyd iach yn canolbwyntio ar dair thema - basgedi siopa iachach; bwyta'n iachach y tu allan i'r cartref ac amgylcheddau bwyd lleol iachach. Mae'r cynigion y byddwn yn gofyn i bobl eu hystyried yn cynnwys cyfyngu ar hyrwyddo rhai bwydydd a diodydd; gorfodi bwytai a mannau gwerthu bwyd i arddangos caloriau a defnyddio pwerau cynllunio a thrwyddedu presennol i ystyried dwysedd siopau bwyd tecawê poeth mewn ardal benodol. Rydym am ddefnyddio ein pwerau a'n dulliau polisi presennol i ddatblygu newid ledled Cymru.

Nod yr ail ymgynghoriad yw defnyddio pwerau presennol i roi terfyn ar werthu diodydd egni i blant a phobl ifanc o dan 16.

Bydd fy swyddogion yn ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i drafod y cynigion a chasglu tystiolaeth ac adborth manwl. Bydd hyn yn cynnwys casglu barn y cyhoedd a grwpiau ffocws penodol i sicrhau ein bod yn gwrando a chasglu safbwyntiau gwahanol. Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu penodol â diwydiant a rhanddeiliaid a byddwn yn rhoi dulliau ar waith i sicrhau ein bod yn clywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Mae dolen i'r ymgynghoriad ynghlwm:
Amgylchedd Bwyd Iach
Diodydd Egni